LC150

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Deunydd Risg Penodedig (Diwygio) (Cymru)(Rhif 2) 2000**

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu, mewn perthynas â Chymru, Benderfyniad y Comisiwn Ewropeaidd sy'n estyn diffiniad Deunyddiau Risg Penodedig er mwyn cynnwys holl goluddyn anifeiliaid buchol. Maent yn gwneud hynny drwy ddiwygio rheoliad 4(1) o Reoliadau Deunydd Risg Penodedig 1997, ac erthygl 4 o Orchymyn Deunydd Risg Penodedig 1997.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan y Weithdrefn Weithredol ar 29 Rhagfyr 2000.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes unrhyw bwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Y Nodyn Esboniadol – Paragraff 1**

Mae hwn yn dweud bod Rheoliadau a Gorchymyn 1997 yn gymwys i'r Deyrnas Unedig yn gyfan. Er hynny, mae'n ymddangos mai i Gymru, Lloegr a'r Alban yn unig y mae'r ddau offeryn hyn yn gymwys.

**Enwi pwerau**

Nid oes i'r pwerau o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd yr un effaith eang â'r pwerau o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd. Gan hynny, credir mai o dan y pwer a geir

yn adran 2(2) yn unig y mae’r diwygiadau i Orchymyn 1997 yn cael eu gwneud.  Efallai y buasai’n ddoeth pe bai’r cymal Enwi Pwerau wedi egluro hynny.

**Mick Bates AM**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

16 Ionawr 2001